Sant Jerôm: 347–419

Sant Jerôm a'r llew

Dewrder / caredigrwydd

Pan fyddwch chi'n mynd i'r sŵ, pa anifeiliaid fyddwch chi'n hoffi eu gweld? Eliffant, cangarŵ, nadroedd neu'r adar lliwgar? Ond beth am y llew? Hwn ydi brenin y jyngl.

Ydych chi wedi'i weld o yn cerdded o gwmpas gan edrych o'r naill ochr i'r llall? Weithiau bydd yn agor ei geg yn llydan, a dyna gael cipolwg ar ei ddannedd miniog. Dyma hanes am sant yn dofi llew gwyllt.

Roedd Jerôm yn eistedd tu allan i'r fynachlog. Yn sydyn, gwelodd lew yn dod i fyny'r llwybr tuag ato. Eisteddodd Jerôm yn llonydd. Gwelodd fod y llew yn gloff. Cododd y llew ei bawen fawr ar lin y sant. Gwelodd Jerôm fod yna bigyn mawr yn ei bawen. Tynnodd y pigyn o'i bawen.

"Wel dyna ti, yr hen lew, i ffwrdd â ti rŵan yn ôl i'r goedwig," meddai'r sant.

Ond, na, doedd y llew ddim am fynd yn ôl i'r goedwig. Eisteddodd wrth ochr y sant â'i ben ar ei lin.

"Wel," meddai Jerôm, "os wyt ti am aros yn y fynachlog, mae'n rhaid i ti weithio fel pob un ohonom ni. Fe gei di, yr hen lew, fynd efo'r gweithwyr i'r goedwig i dorri coed. Dy waith di fydd gwarchod y mul bach a'r gweithwyr rhag ofn i ladron ddod yno i ddwyn y coed," meddai'r sant.

Ac felly y bu. Am wythnos roedd y llew yn dilyn y mul a'r gweithwyr i'r goedwig. Ond, un diwrnod, a hithau'n ddiwrnod poeth, fe syrthiodd y llew i gysgu ar y dail cynnes o'i gwmpas. Pan ddeffrodd roedd y mul wedi diflannu.

Cerddodd yn benisel yn ôl i'r fynachlog. Roedd y sant yn flin iawn.

"Fe fydd rhaid i ti gario'r coed ar dy gefn dy hun, gan dy fod wedi bod mor esgeulus yn syrthio i gysgu a thithau i fod i gadw llygad ar y mul bach," meddai'r sant.

Un diwrnod pan oedd y llew yn cario'r coed ar ei gefn, gwelodd fintai o gamelod yn mynd heibio. Roedd mul bychan yn eu harwain. Hwn oedd mul bach y fynachlog. Penderfynodd y llew dywys y

camelod a'u perchnogion i'r fynachlog.

Dywedodd meistri'r camelod mai nhw oedd wedi dwyn y mul a'r coed.

"Ewch," meddai Jerôm wrthyn nhw, "ond peidiwch byth â gwneud peth fel hyn eto."

Ar ôl iddyn nhw fynd i ffwrdd, dechreuodd y llew a'r mul ar eu gwaith unwaith eto. Bob nos, ar ôl diwrnod caled o waith, byddai'r llew yn cysgu'n braf wrth draed y sant.

Ymhen blynyddoedd, bu'r llew farw a chafodd ei gladdu ym mynwent y fynachlog.

"Dangos dy ffyddlondeb..."
Salm 17:7

O Dduw,
gwna fi yn fwy ffyddlon
tuag at Mam a Dad,
brawd a chwaer,
Taid a Nain,
a'm teulu i gyd.
Amen.

Pa mor bwysig ydi bod yn ffyddlon i'r teulu, ysgol, tîm a gwlad?

Sant Jerôm: 347–419